# BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU DYDD GWENER, 23 HYDREF 2020

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cynghorwyr:- Hugh Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn), Ian B.Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Sam Rowlands (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Dyfrig L.Siencyn (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd).

Ymgynghorwyr – Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo Menai), Maria Hinfelaar (Prifysgol Glyndŵr), ac Askar Sheibani (Bwrdd Cyflawni Busnes).

Prif Swyddogion – Annwen Morgan (Cyngor Sir Ynys Môn), Iwan Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Colin Everett (Cyngor Sir y Fflint), Judith Greenhalgh (Cyngor Sir Ddinbych), Linda Roberts (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Dilwyn Williams (Cyngor Gwynedd).

Swyddogion yn bresennol –
Awdurdod Lletya:
Dafydd Edwards (Swyddog Cyllid Statudol – Awdurdod Lletya), Iwan Evans (Swyddog Monitro – Awdurdod Lletya), Sian Pugh (Cyfrifydd Grwp - Corfforaethol a Phrosiectau) ac Annes Sion (Arweinydd Tim Democratiaeth)

Swyddfa Raglen:
Alwen Williams (Cyfarwyddwr Rhaglen), Hedd Vaughan-Evans (Rheolwr Gweithrediadau), Nia Medi Williams (Uwch Swyddog Gweithrediadau), Henry Aron (Rholwr Rhaglen Ynni), Robyn Lovelock (Rheolwr Rhaglen), David Mathews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo), Stuart Whitfield (Rheolwr Rhaglen Digidol), Erin Thomas (Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu) Angharad Evans (Swyddog Cefnogi Rhaglen) a Lynn Slaven (Ysgrifenyddes y Cyfarwyddwr).

Awdurdodau Lleol a Partneriaid:
Gary Ferguson (Cyngor Sir y Fflint), Gary Williams (Cyngor Sir Ddinbych), Gareth Owens (Cyngor Sir y Fflint) Lynn Ball (Cyngor Sir Ynys Mon), Jane Richardson (Cadeirydd Grŵp Swyddogion Gweithredol), Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych), Andrew Farrow (Cyngor Sir y Fflint) a James Goodman (Prifysgol Bangor)

## 1. ETHOL CADEIRYDD

Bu i Cyng. Dyfrig Siencyn gael ei ethol yn gadeirydd ar gyfer 2020/21.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Bu i Cyng. Mark Pritchard gael ei ethol yn is-gadeirydd ar gyfer 2020/21.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cyng. Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam) ac Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam).

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONNOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatgan o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys.

## 6. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 31 GORFFENNAF 2020

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o’r Bwrdd Uchelgais a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2020 fel rhai cywir.

## 7. CYTUNDEB TERFYNOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Cyfarwyddwr Rhaglen.

**PENDERFYNWYD**

- Cymeradwywyd cyflwyno'r Achos Busnes Portffolio a'r pum Achos Busnes Rhaglen i Lywodraethau'r DU a Chymru am Gytundeb Terfynol ar Gynllun Twf Gogledd Cymru.
- Cytunwyd bod pob un o'r Partïon yn unigol yn cymeradwyo'r Cynllun Busnes Cyffredinol sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru fel sail ar gyfer cwblhau'r Cytundeb Terfynol a derbyn y Llythyr Cynnig Grant gyda Llywodraethau'r DU a Chymru.
- Cytunwyd bod pob un o'r Partïon yn unigol yn cymeradwyo ac yn ymrwymo i Gytundeb Llywodraethu 2 ac yn benodol yn mabwysiadu'r dirprwyadau a'r Cylch Gorchwyl yn “Atodiad 1 o Gytundeb Llywodraethu 2” ohono fel sail ar gyfer ymrwymo i'r Cytundeb Terfynol a derbyn y Llythyr Cynnig Grant gyda Llywodraethau'r DU a Chymru.
- Cymeradwywyd y dull a ddefnyddir i gyfrifo cost benthyca mewn egwyddor sydd ei angen i hwyluso'r llif arian negyddol ar gyfer y Cynllun Twf, a'r cyfraniadau partner blynyddol cyfatebolsydd eu hangen i gwrdd â'r gost hon a’r cyfraniadau craidd ac atodol sydd wedi’u sefydlu, fel sydd wedi'i nodi yn GA2 (ac ym mharagraffau 5.5 - 5.7 o’r adroddiad).
- Cytunwyd bod y Cyfarwyddwr Rhaglen, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Uchelgais, Swyddog Monitro'r Corff Atebol a Swyddog Adran 151 y Corff Atebol, yn derbyn awdurdod dirprwyedig i gytuno ar fân newidiadau i'r dogfennau fel sydd angen i gwblhau'r cytundeb.
- Cymeradwywyd ailenwi'r Swyddfa Rhaglen yn Swyddfa Rheoli Portffolio yn unol ag arfer gorau ac o ganlyniad i hynny, newid teitl swydd y Cyfarwyddwr Rhaglen yn Gyfarwyddwr Portffolio.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn 2016, mabwysiadodd partneriaid y Bwrdd Uchelgais Weledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru. Yn seiliedig ar Strategaeth y Weledigaeth Twf, yn Hydref 2018 cytunwyd ar y Cynllun Twf gan holl bartneriaid y Bwrdd Uchelgais drwy weithio gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a’r sector breifat.

Yn Nhachwedd 2019 cytunodd y Bwrdd Uchelgais a’r ddwy Lywodraeth i Benawdau’r Telerau, gyda Chytundeb Terfynol i’w gwblhau yn 2020.

Mae’r Bwrdd Uchelgais wedi ymrwymo i gyrraedd Cytundeb Terfynol gyda’r ddwy Lywodraeth cyn diwedd Rhagfyr 2020.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad hwn yn garreg filltir yn nhaith y Bwrdd Uchelgais. Tynnwyd sylw tuag at yr argymhellion oedd yn cael ei amlygu ar ddechrau'r adroddiad. Amlygwyd yr amserlen gan nodi fod llawer wedi digwydd o fewn y 10 mis diwethaf.

Nodwyd fod y swyddfa raglen wedi bod yn gweithio yn ddiwyd ar y dogfennau perthnasol, ac y bydd y cytundeb Terfynol yn cael ei ddiogelu ar sail Achos Busnes Portffolio ac 5 Achos Busnes Rhaglen. Mynegwyd fod yr Achos Busnes Portffolio yn amlygu'r prif amcanion yn rhoi crynodeb o'r cynnig ariannu ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru, ar gyfer cynnwys yn y Cytundeb Terfynol. Pwysleisiwyd fod yr achosion busnes yn rhai byw sydd yn cael eu hadolygu yn gyson. Tynnwyd sylw at bob achos busnes yn unigol.

Amlygwyd y Cynllun Busnes Cyffredinol gan bwysleisio ei fod yn gosod allan y trefniadau ar gyfer gweithredu Cynllun Twf Gogledd Cymru, gan gynnwys trosolwg o'r rhaglenni a phrosiectau er mwyn cael cymeradwyaeth pob partner i'r gofynion Ariannol ar gyfer gweithredu'r cynllun. Diolchwyd i'r tîm rhaglen am ddod a chyfanswm y prosiectau i £240miliwn sydd cyfystyr a lefel grant y Llywodraethau. Amlinellwyd yr Incwm a Gwariant gan nodi fod y proffil gwario dros tua 6 mlynedd, ac ariannu'r llywodraethau yn gyfartal dros 15 mlynedd, felly y bydd y gost o ariannu'r llif arian negyddol. Er hyn, nodwyd fod yr awdurdod lletya am hwyluso hynny i'r partneriaid ac wedi gwneud rhagdybiaethau rhesymol cyn lledaenu'r gost yn gyfartal dros 15 mlynedd y cynllun, er mwyn cynnig cost blynyddol cyraeddadwy. Ategwyd y bydd hyn yn ymrwymo'r partneriaid i'r Cynllun Twf am 15 mlynedd.

Tynnwyd sylw at Gynllun Llywodraeth 2 a fydd yn mynd a'r bartneriaeth i'r cynllun gweithredu ar gyfer y Cynllun Twf. Nodwyd y bydd yn parhau â'r model llywodraethu a fabwysiadwyd yn GA1, sef Cydbwyllgor a gefnogir gan awdurdod lletya ac yn darparu ar gyfer ymrwymiadau a chyfrifoldebau'r Partneriaid i'r bartneriaeth. Ychwanegwyd ei fod yno gystal yn diffinio'r berthynas rhwng y Bwrdd a'i sefydliadau Partner cyfansoddol, cyfyngiadau dirprwyo ac atebolrwydd.

O ran y Cytundeb Terfynol, nodwyd ei fod yn gytundeb a grëwyd ar y cyd rhwng y Bwrdd Uchelgais a'r ddwy Lywodraeth. Pwysleisiwyd mai drafft sydd ar hyn o bryd a'i fod yn parhau i gael ei addasu dros yw wythnosau nesaf. Amlygwyd y camau nesaf sydd i gael cymeradwyaeth ddemocrataidd gan y 6 Awdurdod Lleol a'r Partneriaid. Nodwyd yn ystod y cyfnod y bydd Proses AOR yn cael ei gynnal dros gyfnod o bum wythnos gyda'r Llywodraethau ac amlinellwyd yr amserlen, gyda'r adroddiad terfynol yn cael ei chyhoeddi ddiwedd Tachwedd. Pwysleiswyd ei bod yn broses manwl tu hwnt.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Pwysleiswyd fod y Tîm yn barod ac yn ffyddiog y bydd y 2 Lywodraeth yn barod ac yn cadw ar eu haddewi. Mynegwyd os bydd cytundeb yn ei erbyn diwedd 2020 y bydd modd ei arwyddo ddechrau 2021. Mynegwyd os na fydd yn cael ei gwblhau y gall y cyfraniad gael ei roi ym mis Medi 2021 ond y buasai hyn yn rhoi effaith domino a bod angen y fargen orau.
- Pwysleiswyd fod y tîm yn ffyddiog unwaith y bydd yr arian yn cael ei dderbyn y bydd gwaith yn y cynlluniau busnes yn cychwyn yn syth.
- Bu i'r aelodau longyfarch y tîm am eu gwaith caled a phwysleisiwyd ei fod yn gyffroes ac yn amlygu'r gyriad sydd i'w gweld tu ôl i'r Cynllun Twf. Pwysleiswyd fod y cyfnod hir wedi dwyn ffrwyth ac iddynt obeithio am lwyddiant cyn diwedd y flwyddyn.
- Holwyd pa lefel craffu fydd gan y Bwrdd Uchelgais o ran y Llywodraethau. Mynegwyd y bydd lefel uchel o graffu ac y bydd ffocws mae'r rhanbarth i gwblhau'r cytundeb terfynol.

- • Diolchwyd am y gwaith a phwysleisiwyd yr her bellach fydd i wneud y gwaith fod bod modd i ni brofi ein hunain.

**8. ADOLGYIAD ARIANNOL CHWARTER 2**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dafydd Edwards, Swyddog Cyllid Statudol – Awdurdod Lletya.

**PENDERFYNWYD**

Derbyniwyd a nodwyd Adolygiad Ail Chwarter y Cydbwyllgor ar gyfer 2020/21.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mynegwyd fod angen darparu manylion y gwariant a'r incwm gwirioneddol ar gyfer ail chwarter blwyddyn ariannol 2020/21 i'r Bwrdd uchelgais ynghyd a rhagamcaniad o'r alldro blwyddyn lawn yn erbyn y gyllideb flynyddol.

Er mwyn gweithredu'n effeithiol mae angen i'r Cydbwyllgor fod yn ymwybodol o'i sefyllfa gwariant a rhagamcan yn erbyn ei gyllideb flynyddol gymeradwy.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi er y pandemig fod y sefyllfa gyllidebol yn dderbyniol. Amlygwyd fod £78mil o danwariant gan nodi fod hyn yn bennaf o ganlyniad i oedi cyn penodi rhai swyddi o ganlyniad i'r panedemig. Er hyn nodwyd ei fod yn dderbynion ac nad yw'r Bwrdd Uchelgais mewn unrhyw drafferthion ariannol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Diolchwyd i'r staff yr adran gyllid am ei gwaith caled.
- Nodwyd ymwybyddiaeth o gyllideb iach.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 3.15 y.h.

**CADEIRYDD**